



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan,
LL330AB

01248681697 Clerc y Dref: jayne@llanfairfechan.net

**COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF
NOS FERCHER 6^{ED} O ORFFENNAF 2022**

Yn bresennol: Cadeirydd: Dirprwy Gyng Laura Fielding; Maer Chris Jones; Cyng Penny Andow; Cyng Leena Farhat; Cyng Claire Hughes (dros ZOOM); Cyng Pat Griffiths; Cyng Nia Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Elgan Owen (dros ZOOM); Cyng Christine Roberts; Cyng Preben Vangberg

29. Croeso gan y Cadeirydd – Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

30. Derbyn unrhyw ymddiheuriadau: Cyng Gareth Jones; Cyng Andrew Hinchliff;

Penderfynwyd derbyn a nodi

31. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – Yn unol â Chôd Ymddygiad Llywodraeth Leol
Dim datganiadau o ddiddordeb

Penderfynwyd derbyn a nodi

32. Derbyn Datganiad Derbyniad gan Pat Griffiths – aelod cyfetholedig Ward Lafan Cyngor Tref Llanfairfechan.
Croesawodd y Cadeirydd a'r Cyngor Tref Pat Griffiths.

Penderfynwyd derbyn a nodi

33. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd. Ni oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Penderfynwyd derbyn a nodi

34. Trafod a chymeradwyo meinciau newydd yn Llanfairfechan. Mae nifer o opsiynau wedi'u hystyried fel a ganlyn:

1. Meinciau derw - dyma'r rhai gaiff eu hystyried gwnaiff bara orau ac sydd fwyaf sensitif i'r amgylchedd naturiol. Yr hyn sy'n bwysig ydy prynu rhai o ansawdd dda ac mae'r Clerc wedi cysylltu gyda Chynghorau Tref eraill am gyngor.
2. Mainc bicnic wedi'i gorchuddio â metel lliw – cadarnhaol bod siapiau amrywiol ar gael gan gynnwys un mynediad llawn fyddai'n ddefnyddiol i rai mewn cadeiriau olwyn neu gyda chadeiriau gwthio.
3. Meinciau metel naturiol wedi'u darparu gan gof lleol – mae'r rhain wedi'u prynu yn flaenorol ac maent yn para yn dda. Mae modd eu darparu gydag arwydddeiriau ayb ond nid mewn lliw.
4. Meinciau allan o blastig wedi'i ailgylchu – rydym ni wedi derbyn gwybodaeth bod y rhain yn anffurfiol dros amser ac nid ydynt yn para yn dda. Maent hefyd yn gallu cael eu difrodi yn hawdd gan wres. Yn ychwanegol, mae'r her o sut mae cael gwared arnynt ar ddiwedd eu hoes.

Mae ymweliad safle wedi'i drefnu ar gyfer Dydd Mawrth 19eg o Orffennaf am 10yb – y Clerc i drefnu. Caiff y mater hwn ei benderfynu yn y cyfarfod nesaf fel bod y tîm staff yn gallu dechrau gweithredu'r prosiect.

35. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Mehefin 22^{ain} 2022 a'r rhestr weithredu (LGA1972 Atodiad 12) Roedd y cofnodion wedi'u derbyn yn flaenorol a'u nodi wedi'u darllen.

1. Pont droed – Wedi anfon e-bost at CBS Conwy ac mae ar y rhestr waith. Y Clerc i anfon e-bost am wybodaeth bellach.
2. Arwyddion parc chwarae – Wedi anfon e-bost at CBS Conwy ac mae ar y rhestr o adroddiadau. Mae'r Arolygwr Parc Chwarae wedi'i gyfeirio at yr adran draffig
3. Cabanau traeth – i'w drafod mewn cyfarfod gyda chyfleusterau CBSC ar y 13^{eg} o Orffennaf
4. Toiledau cyhoeddus – i'w drafod mewn cyfarfod gyda chyfleusterau CBSC ar y 13^{eg} o Orffennaf

Cynigydd Cyng N Jones Eilydd Cyng L Farhat

Penderfynwyd derbyn a nodi

Rhestr Weithredu Cyngor Tref Llanfairfechan
Dyddiad: 6^{ed} o Orffennaf 2022

	Eitem:	Dyddiad:	Datblygiad
1	Maes parcio Nant y Pandy	04/07/2022	Wedi symud ymlaen at gynllunio
2	Maes parcio'r promenâd a chynllun amddiffyn rhag llifogydd	21/06/2022	Wedi anfon e-bost, dim ymateb
3	Difrod yn Nant y Coed	05/07/2022	Wedi anfon e-bost, dim ymateb
4	Prosiect meinciau	Ar yr agenda	
5	Prosiect Gwylio Cyflymder	06/07/2022	Bwriad i'w lansio ym mis Medi
6	Senotaff	27/06/2022	Wedi derbyn e-bost, aros am ddyfynbris
7	MUGA West Shore	05/07/2022	Rhwyd tennis wedi'i derbyn, angen cymorth i'w gosod
8	Cwrt petanque	I'w drafod	
9	Diffibriliwr		Wedi gorffen ei osod – plac ar fynd
10	Pwll padlo	05/07/2022	Adrodd am broblem paent
11	Archwiliad	Wedi'i gwblhau	Wedi'i anfon ar Fehefin 28ain drwy ddanfoniad arbennig
12	TG GDPR a'r Swyddfa	I'w drafod	
13	Hyfforddiant i'r Clerc a'r staff	05/07/2022	Ffurflen bwrsariaeth i'w chwblhau
14	Blwch trydanol y Clwb Pêl-droed		Ar fynd, aros am fwy o wybodaeth
15	Meinciau lloches y pwll cychod		Mewn stoc ac yn barod i'w gosod
16	Cynllun Cymunedol Kickstarter	Ar yr agenda	Eitem 15
17	Marchnadoedd Bwyd ac Artisan	I'w drafod	i gyd fel rhan o eitem 15 ar yr agenda
18	Llanfest Awst 6ed	I'w drafod	i gyd fel rhan o eitem 15 ar yr agenda
19	Digwyddiad Tân Gwylt	I'w drafod	i gyd fel rhan o eitem 15 ar yr agenda
20	Digwyddiad Coffa	I'w drafod	i gyd fel rhan o eitem 15 ar yr agenda
21	Gŵyl y Gaeaf a Goleuadau Nadolig	I'w drafod	i gyd fel rhan o eitem 15 ar yr agenda

8 Mae Gefeillio Trefi wedi dangos diddordeb mewn helpu i ddiweddarw'r cwrt Pentanque. Y Clerc i gysylltu gyda'r grŵp i drafod ffordd ymlaen ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

12 Mae'r llinell ffibr yn Neuadd Gymunedol y Dref wedi bod yn llwyddiant mawr. Y cyngor ydy nad oes angen dau gyfrif ar gyfer y we a dylid cau'r hen gyfrif band eang. Roedd y Clerc wedi siarad gyda BT ac mae'r cytundeb wedi mynd heibio ei gyfnod felly ni fydd angen talu unrhyw gostau os caiff ei derfynu. Caiff y mater ei roi ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf i gytuno ar gyfraniad gan y Cyngor Tref tuag at linell ffibr y neuadd gymunedol. Y Clerc i weithredu ar hyn.

17 – 21 Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwrnod cyfarfod cynllunio cymunedol ar Orffennaf y 18fed

Penderfynwyd derbyn a nodi

36. Derbyn gwybodaeth am archwiliad allanol 2020/2021

Bu i'r Cyngor Tref dderbyn a chymeradwyo'r Archwiliad Mewnol a ffurflen dreth flynyddol yn y cyfarfod diwethaf a dywedodd y Clerc a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol bod y pecyn archwiliad allanol wedi'i bostio ar Fehefin 28^{ain} i gyrraedd ar Fehefin 29^{ain}.

Penderfynwyd derbyn a nodi

37. Trafod a chymeradwyo cynlluniau a sesiynau prosiect cynllunio cymunedol pellach Kickstarter

Trefn y sesiwn arfaethedig nesaf ar ddydd Llun 18^{fed} o Orffennaf 2022:

- 3yp tan 4:30yp Gwahoddiad i rieni a phlant ddod draw. Y Clerc i drefnu castell neidio a phaned
- 5yp Cyfarfod Cynghorydd Tref gyda James Davies o Gymorth Cynllunio Cymru. Yr hanes hyd yma.

- 6yh tan 8yh Sesiwn camau nesaf Cymorth Cynllunio Cymru gyda James Davies

Awgrymwyd y buasai stondin yn y Co-op yn syniad da, ond buasai angen i'r Cynghorwyr Tref wirfoddoli – y Clerc i gysylltu gyda'r Co-op. Digwyddiadau Coffa a Thân Gwyllt - stondin i hel syniadau a chymorth ar gyfer y digwyddiad.

Gŵyl y Gaeaf – Stondin yn ystod y diwrnod cynllunio cymunedol ac arolwg ar Facebook i ganfod barn pobl am oleuadau a digwyddiadau. Nodwyd bod gwaith ar yr arolwg ieuenctid yn digwydd ar y funud gyda chymorth gwirfoddolwr Dug Caeredin fydd efallai yn gallu helpu gyda'r stondin yn y Co-op.

Yn ychwanegol at hyn, caiff prosiect baner gymunedol ei awgrymu. Mae 13 daliwr polion fflag yn yr Orsaf y mae modd eu defnyddio ac mae cynnig bod y rhain yn cael eu defnyddio i ddal baneri cymunedol. Mae'r syniadau yn cynnwys: Arfbais Llanfairfechan, Llanfest, Wcraïn, Logos Elusennol, Gŵyl y Gaeaf. Y tîm o staff i weithredu ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf er mwyn gwneud penderfyniad terfynol ar bryniant. Cynigydd Cyng C Jones Eilydd Cyng P Griffiths Penderfynwyd derbyn a nodi

38. Derbyn a chymeradwyo Adroddiadau Ariannol Gorffennaf 2022

Nodwyd bod y Pwyllgor Cynllunio bellach wedi'i sefydlu a bod angen trefnu'r cyfarfod cyntaf. Caiff hwn ei gynnal ar nos Fercher 27^{ain} o Orffennaf am 6yh. Caiff cylch gorchwyl y pwyllgor ei roi mewn lle a bydd y grŵp yn cyfarfod yn chwarterol.

Cynigydd Cyng L Farhat Eilydd Cyng P Vangberg

Penderfynwyd derbyn a nodi

39. Derbyn a chymeradwyo taliadau presennol ar gyfer mis Gorffennaf a mis Awst 2022

1. Cyflogau a phensiynau – Cyflogau'r staff a chyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a'r Gweithwyr ar gyfer mis Gorffennaf £4600
2. Cyflogau a phensiynau – Cyflogau'r staff a chyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a'r Gweithwyr ar gyfer mis Awst £4600
3. Taliad mis Gorffennaf REIM TENS Kirsty Merrell Daily £21.00
4. Rhwydi pêl fased a thennis Boyd Sport & Play LTD £188.40
5. Trydanwr R Jones gosod y diffibriliwr £226.00
6. RESAPOL chwistrellydd dŵr bag cefn £61.90
7. EPC Forestry PROW toriad mis Mai £850.00
8. Cais am arian mân o'r gyllideb flynyddol £250
9. Cyflenwad dŵr Dŵr Cymru ar gyfer Mynwent Erw Feiriol £124.50
10. Goleuadau MUGA British Gas £22.27 (taliad ôl-ddyddiedig)
11. Archwiliad Mewnol JDH Hughes 445.50 (taliad ôl-ddyddiedig)
12. Taliad llungopïo lliw diwethaf ABS £9.10 (taliad ôl-ddyddiedig)
13. Viking swyddfa a glanhau £229.37 (taliad ôl-ddyddiedig)

Cafodd yr holl daliadau eu hystyried gyda'i gilydd. Cytunwyd bod y Clerc/Swyddog Cyllid am hawlio'r arian mân ar gyfer 2022/23 yn hytrach nag yn chwarterol.

Cynigydd Cyng L Farhat Eilydd Cyng P Vangberg

Penderfynwyd derbyn a nodi

40. Trafod materion cynllunio

Dim cais cynllunio wedi dod i law. Fodd bynnag, nodwyd bod mater Nant y pandy bellach ar-lein ar dudalen Cynllunio Conwy ac fe gaiff hyn ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

41. Derbyn gohebiaeth

1. Mae e-bost wedi'i derbyn gan y tîm Amddiffyn rhag Llifogydd yn ymwneud â Maes Parcio'r Promenâd mewn ymateb i ymholiadau gan y Clerc. Manylion fel a ganlyn:
1. Atgyweiriadau brys – mae gwaith dros dro wedi'i gwblhau er mwyn cynnal y bwrdd sbasio tra bod y Cyngor yn aros am ganiatâd cynllunio i adeiladu rhywbeth mwy parhaol i ddatrys y broblem. Mae'r gwaith parhaol hwn yn ymestyn hyd at y traeth y tu hwnt i ôl-troed presennol yr amddiffynfeydd, ac yn agos at SSS1, sy'n egluro pam eu bod angen caniatâd cynllunio. Gall y broses hon gymryd sawl mis ond mae'n agosáu at orffen erbyn hyn. Mae'r gwaith parhaol arfaethedig yn cynnwys:
 - Gosod stôr o gerrig mawrion ar flaen y traeth o flaen y wal gynnal
 - Adeiladu llwybr cerdded parhaol y tu ôl i'r wal gynnal
 - Adfer y tir fferm sydd y tu ôl i'r amddiffyniad
2. Mae'r gwaith parhaol arall, codi'r amddiffyniadau llifogydd ar hyd y promenâd, yn cael eu cynllunio mewn partneriaeth â chynllunydd allanol, HR Wallingford. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am waith cynllunio gwella'r maes parcio. Ar y funud nid oes gen i unrhyw luniau i'w rhannu gyda chi, ond byddaf yn rhannu cynlluniau gyda chi pan gallaf.

3. O ran gweithgareddau eraill i waith atgyweirio, mae tîm yn dod i gynnal arolwg o system draenio'r maes parcio, rydym ni'n aros i gytuno ar ddyddiad. Nid ydy hyn yn ymwthiol a ni ddylai darfu ar unrhyw beth. Byddent yn gwneud eu gwaith hwyrach ymlaen yn y diwrnod yn ystod yr wythnos, pan fydd y maes parcio yn ddistawach.

Mae materion eraill i'w trafod a gofynnwyd i'r Clerc ofyn bod tîm yn mynychu'r cyfarfod nesaf a nodi'n gryf beth ydy sefyllfa'r Cyngor Tref. Mae aelodau etholedig yn hynod o siomedig yn lefel y cyfathrebu a'r datblygiad gyda'r prosiect hwn. Mewn cyfarfod ym mis Rhagfyr, gwnaed sawl addewid sydd wedi'u torri. Mae'r Cyngor Tref yn ceisio eglurhad iawn ar y mater hwn ac yn gofyn am amserlen gadarn ar gyfer y prosiect wrth symud ymlaen gan na chafodd yr un flaenorol ei anrhydeddu. Y Clerc i ofyn bod CBSC yn cyhoeddi datganiad neu ddiweddariad ar y tudalen gwe amddiffyniad morol yn egluro'r oedi fel bod modd i'r Cyngor Tref ei rannu.

2. Mae e-bost wedi'i derbyn gan Swyddog Cefn Gwlad CBSC:

Gwaith arfaethedig yn Nant y Coed, Llanfairfechan.

Nid oedd y cynigion gwreiddiol i adfer y llwybr presennol ar lan yr afon yn dderbyniol i Gyfoeth Naturiol Cymru.

Heb lawer o ddewisiadau ar gael, rydym am osod llwybr mynediad â grisiau pren. Bydd yn croesi i fyny a dros yr ochr pren serth ac yna'n ailymuno â'r llwybr presennol ar lan yr afon, gan osgoi'r darn sydd wedi erydu.

O fynediad Newry Drive. Gadael y prif llwybr – bydd y llwybr i fyny'r ochr serth yn osgoi'r tyfiant sy'n gorhongian gyda gwreiddiau coed yn y golwg ac yn osgoi'r ardal lle mae clychau'r gog yn ffynnu.

Mae coed ynn afiach yn ardal y llwybr. Caiff gwaith, yn unol â'r Cynllun Gweithredu Gwywiad Coed Ynn, ei gynnal yn fuan. Yn anffodus bydd effaith hyn yn ddramatig.

Ar ben yr ochr, caiff darn bach o waith ffensio ei osod lle mae cwmp serth.

Caiff y llwybr i lawr y llethr i ailymuno gyda'r prif llwybr ei adael mor naturiol â phosibl.

Gwaith yn dechrau: 18 Gorffennaf 2022

Rydym ni'n disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau ym mis Hydref 2022.

Yn ystod y gwaith adeiladu, ni fydd hawl mynediad trwy'r warchodfa natur a dim ond nifer cyfyngedig iawn o lefydd parcio ar Newry Drive.

Mae gwaith parhaol ar fynd i edrych am ffyrdd i amnewid y cerrig camu sydd uwch i fyny'r afon, heb llwybr sy'n addas i beiriannau fynd yno i gludo a gwreiddio cerrig trymach arfaethedig.

Mae CBSC wedi diweddaru ein gwefan er gwybodaeth gyhoeddus: Gwarchodfa Natur Leol Nant y Coed – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae diolch i Gyngor Tref Llanfairfechan am y cymorth ariannol sydd wedi'i derbyn.

Penderfynwyd derbyn a nodi

42. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

1. Adroddodd Cyng L Fielding ar Bwyllgor Digwyddiadau Cymunedol Llanfairfechan – mae'r pwyllgor bellach wedi cwblhau'r broses o sefydlu ac mae ganddo gyfrif banc, yswiriant a chyfansoddiad. Mae paratodau ar gyfer Llanfest ymhell ar y blaen. Mae'r Cyng Laura Fielding (Ysgrifenyddes) a'r Cyng Christine Roberts yn rhan o'r pwyllgor. Roedd cwestiwn wedi'i godi ynglŷn â'r Goleuadau Nadolig. Bu i'r Clerc ailddatgan bod unrhyw un sy'n gosod y goleuadau yn gorfod bod â thystysgrif briodol i wneud hynny, ac mae hyn yn achosi trafferthion mawr i bob Cyngor Tref. Mae'r Clerc mewn trafodaethau gyda chynghorau eraill i weld a oes modd sefydlu prosiect ar y cyd. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl i wirfoddolwyr helpu gyda hyn nes bod y sefyllfa wedi'i hegluro. Caiff goleuadau Nadolig eu cynnwys yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.
2. Adroddodd Cyng Penny Andow ar Gyfarfod Blyneddol Clwb Pêl-droed Llanfairfechan. Mae ganddynt dîm cadarn o bobl yn datblygu'r cyfleusterau ac mae gwaith ar fynd i gwblhau les ar y tir gyda CBSC. Mae tîm pêl-droed y merched yn mynd yn dda iawn, ac mae'r teimlad yn gadarnhaol iawn wrth symud ymlaen.
3. Adroddodd Cyng Penny Andow ar gyfarfod CBS Conwy ynglŷn â'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys tai newydd posibl ar gae Cae Ffynnon ac ysgol newydd. Cododd Cyng Andow y cwestiwn ynglŷn â'r Heath ac adroddodd efallai buasai'r ysgol mewn lleoliad gwell yn yr adeilad hwn yn hytrach na defnyddio adeilad newydd. Buasai modd manteisio ar hanes cyfoethog yr Heath a defnyddio adeilad presennol yn effeithiol. Mae CBS Conwy yn ystyried y dewis hwn ac maent am adrodd yn ôl. Nodwyd bod gan adeiladwyr eisoes ddiddordeb mewn symud y prosiect tai yn ei flaen a bydd ymgynghoriad pellach yn digwydd gyda phreswylwyr yn yr Hydref. Gall preswylwyr ychwanegu unrhyw adborth ar y wefan, a bydd hyn yn weithredol erbyn diwedd yr wythnos nesaf. Bydd y Cyngor Tref yn ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol unwaith bydd yn barod.

4. Adroddodd Cyng Leena Farhat ar y cyfarfod Llywodraethwyr Ysgolion. Mae Ysgol Babanod newydd gwblhau arolwg Estyn ac yn aros am yr adroddiad. Nodwyd bod y broses wedi bod yn un gadarnhaol iawn a dylid llongyfarch yr ysgol a'r staff am eu gwaith caled yn cwrdd â safonau yn yr ysgol. Mae disgwyl i Ysgol Pant y Rhedyn gael arolwg cyn Nadolig 2022 ac felly gobeithio bydd y broses yn un esmwyth iddyn nhw hefyd. Yn dilyn y newidiadau i'r cwricwlwm newydd, mae'r ysgol yn awyddus i gael mwy o weithgareddau cymunedol ac yn dymuno gweithio'n agos gyda'r Cyngor Tref. Mae recriwtio staff wedi bod yn her yn ddiweddar ac ni fu i hysbyseb ddiweddar arwain at unrhyw benodiad. Os oes gan bobl ddiddordeb mewn ymgeisio am swydd cynorthwyydd dosbarth yn yr ysgol, dylid eu hannog i anfon datganiad o ddiddordeb.
5. Adroddodd Cyng Christine Roberts a Chyng Nia Jones o'r Pwyllgor Staffio. Hwn oedd yr un cyntaf ar gyfer 2022/23 ac fe gytunwyd bod y pwyllgor am gyfarfod yn chwarterol. Ni chafodd yr un mater ei godi oni bai bod y Clerc y Dref bellach am roi gwybod am unrhyw wyliau o flaen llaw er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn rheolaidd. Yn ychwanegol, bydd goruchwyliad chwarterol i'r Clerc i helpu i sicrhau bod yr holl waith ar drac. Os nad oes unrhyw un ar gael i gymryd drosodd yn y swyddfa, bydd y swyddfa ar gau dros y cyfnodau hyn. Penderfynwyd derbyn a nodi
43. Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys
1. Nodwyd bod y feddygfa yn dioddef o broblemau capasiti sylweddol. Mae'r system E-gynghori wedi'i diffodd nes bydd modd parhau gyda'r gwasanaeth arferol unwaith eto. Nodwyd ei bod wedi'i sicrhau na fuasai capasiti yn broblem petai'r feddygfa yn cymryd drosodd y meddygfeydd ychwanegol. Mae hyn o bryder mawr i'r Cyngor Tref ac maent yn gobeithio bydd y sefyllfa yn gwella yn fuan.
2. Llongyfarchiadau i'r Dirprwy Faer Laura Fielding am Gadeirio ei chyfarfod cyntaf a chroeso i'r Cynghorydd Tref Pat Griffiths i Gyngor Tref Llanfairfechan.
44. Daeth y cyfarfod i ben am 8:45yh.
- Cyfarfod Nesaf: Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Llanfairfechan Nos Fercher 27ain o Orffennaf 2022 am 7yh